Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llanwnnen**
**Llanwnnen**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 7LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2016**

## Cyd-destun

Mae ysgol gynradd Llanwnnen ym mhentref Llanwnnen ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Mae'r ysgol yn rhan o bartneriaeth gyda dwy ysgol gyfagos, sef ysgolion Cwrtnewydd a Llanwenog. Bydd y tair ysgol yn cau ac yn uno mewn ysgol newydd, sy'n cael ei hadeiladu ym mhentref Drefach, ym mis Ionawr 2017.

Ar hyn o bryd, mae 33 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu'n ddau ddosbarth. Nid oes unrhyw ddisgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Daw tua 77% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi adnabod bod tua 21% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2012. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanwnnen yn 2015-2016 yw £4,847. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Llanwnnen yn yr 17eg safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n dda ar lafar
- disgyblion yn cyflwyno gwaith yn glir, gan ddefnyddio llawysgrifen daclus
- rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder mawr yn eu gwaith
- ansawdd yr addysgu yn dda
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn

### Rhagolygon gwella

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus iawn ar wella safonau
- trefniadau hunanarfarnu yn drylwyr
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant
- nifer o bartneriaethau strategol llwyddiannus yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
- y rhwydweithiau buddiol gydag ysgolion y ffederasiwn yn cynnig cyfleoedd da i staff rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu'r disgyblion yn y Saesneg

A2 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn ymestyn eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith

A3 Darparu tasgau mwy heriol, yn arbennig ar gyfer y disgyblion mwy abl

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Maent yn gweithio'n effeithiol yn y dosbarth ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn dda. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl ac ymchwiliol yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n dda ar lafar. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith a llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn awyddus i gynnig atebion a sylwadau synhwyrol wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen testunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder a dealltwriaeth addas. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth yn y llyfrgell.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn defnyddio geirfa addas ac yn dechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n lled gywir yn y Gymraeg. Mae llawer yn defnyddio eu medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm ac ar gyfer ystod eang o bwrpasau. Mae medrau cyflwyno gwaith a llawysgrifen yn dda ac mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder mawr yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion o allu uwch bob amser yn ysgrifennu cystal ag y medrant. Ar adegau, mae safonau sillafu ychydig o'r disgyblion yn amrywio yn y Saesneg.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn defnyddio medrau mathemateg pen effeithiol i adio rhifau, a gallant amcangyfrif yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau rhifedd cadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau eraill, fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae'r niferoedd isel o ddisgyblion yn golygu nad yw cymhariaeth perfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 â meincnodau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ac ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) ym medrau Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Gan fod y rhifau mor fach, nid oes modd darganfod patrwm penodol o wahaniaeth rhwng deilliannau bechgyn o'u cymharu â'r merched dros gyfnod o dair blynedd. Nid yw'n bosibl cymharu cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod gan nad oedd disgyblion felly yn yr ysgol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd, bwyta ac yfed yn iach.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn ac maent yn dra chwrtais a chroesawgar. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill. Mae bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gwersi.

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn mynegi barn ac yn rhan o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol. Mae aelodau'r cyngor wedi sefydlu gorsaf ffrindiau llwyddiannus ar iard yr ysgol ac mae'r disgyblion hŷn yn gweithredu'n effeithiol fel llysgenhadon amser chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain yn hyderus er mwyn deall eu cryfderau a'u gwendidau a datblygu'n well fel dysgwyr annibynnol.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu eang, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae amrywiaeth o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr i'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu nifer o weithgareddau allgyrsiol priodol, er enghraifft clwb yr Urdd a chlybiau chwaraeon a garddio. Mae'r rhain yn brofiadau gwerthfawr sy'n ymestyn gorwelion y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith addas sy'n ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol. Mae'r cynlluniau manwl yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn arbennig wrth gydweithio gyda chyfoedion mewn ysgolion eraill yn y ffederasiwn. Ceir ystod o raglenni cymorth effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu'r her ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amryw o destunau yn ganolog i holl waith yr ysgol. Trwy waith thema ac astudiaeth o hanes a bywyd T Llew Jones, mae dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol yn datblygu'n dda. Mae ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am agweddau hanesyddol a diwylliannol Cymru ac i gymryd rhan yn rheolaidd yng ngweithgareddau'r Urdd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd ac arbed ynni yn effeithiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy'r amrywiol feysydd yn y cwricwlwm, casglu arian at achosion da a chymryd rhan mewn gweithgareddau masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth effeithiol o'r cwricwlwm. Mae'r holl staff yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu treiddgar yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion, ac yn cryfhau ansawdd eu hiaith lafar yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn cynllunio tasgau diddorol ac yn gwneud defnydd da o offer ac adnoddau dysgu i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli ym mhob dosbarth ac mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol iawn wrth gefnogi'r dysgu. Mae rheolaeth dosbarth yn dda drwy'r ysgol ac mae'r staff yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Yn yr ychydig iawn o achosion lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau bob amser yn ymestyn yr holl ddisgyblion, yn arbennig y rhai mwy abl.

Mae gweithdrefnau asesu a chymedroli effeithiol gan yr ysgol ac mae system olrhain yn cael ei defnyddio'n dda i fonitro cynnydd disgyblion. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn dangos iddynt yn glir sut i wella eu gwaith. Defnyddia'r athrawon feini prawf llwyddiant yn rheolaidd ac mae'r disgyblion yn asesu eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn gyson ac yn hyderus.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Ceir gweithdrefnau llwyddiannus iawn i hybu ymddygiad cadarnhaol.

Cydweithia'r ysgol yn dda gydag ystod o asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae'r heddwas lleol yn ymweld â'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion ynglŷn â materion fel cyffuriau, alcohol, diogelwch wrth ymyl y môr ac e-ddiogelwch. Mae cymorth effeithiol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion a rhaglenni ymyrraeth addas i fodloni eu hanghenion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni pwrpasol er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn paratoi cynlluniau addysg unigol effeithiol ar y cyd â'r disgyblion. Mae'r rhain yn nodi targedau priodol, ac yn amlinellu gweithgareddau penodol i sicrhau cynnydd. Caiff y cynlluniau eu rhannu gyda'r rhieni yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle caiff pob disgybl gyfle cyfartal i ddatblygu mewn awyrgylch hapus iawn. Llwyddir i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Mae pwyslais arbennig ar gydweithio a pharchu cyfraniadau eraill. Mae'r ethos hwn yn un o gryfderau'r ysgol.

Er bod yr adeilad yn hen, caiff ei gynnal a'i gadw'n dda ac fe wneir y defnydd gorau o'r holl gyfleusterau sydd ar gael i gefnogi'r dysgu. Gwneir defnydd creadigol o'r tir a'r cae o amgylch yr ysgol ar gyfer gwersi yn yr awyr agored. Mae defnydd llawn o ardal ddysgu allanol y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu medrau dysgu'r disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar ac mae'r arddangosfeydd yn ysgogi'r dysgu yn dda.

Mae cyflenwad addas o adnoddau i gefnogi'r dysgu a gwna'r staff ddefnydd effeithiol ohonynt.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella safonau ac ar gynnig y cyfleoedd gorau i bob disgybl. Mae'n rhannu'r

weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol strwythurau pendant a pholisïau priodol i sicrhau bod y weledigaeth yn treiddio'n effeithiol i bob agwedd o'i bywyd.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar godi safonau.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn llwyddiannus i drafod cynlluniau ac adolygu'r cynnydd a wneir ym mlaenoriaethau'r ysgol. Ceir ffocws pendant ar godi safonau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Er enghraifft, mae nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft trwy ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn derbyn adroddiadau trylwyr ar berfformiad a chyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Maent yn herio'r ysgol yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Mae sylwadau staff, llywodraethwyr a disgyblion yn rhan annatod o'r broses.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu trylwyr ac effeithiol, ac mae'r canfyddiadau sy'n deillio o'r broses yn arwain at dargedau heriol. Cyn llunio blaenoriaethau, mae'r arweinwyr yn casglu ac yn ystyried tystiolaeth bwrpasol yn effeithiol; er enghraifft, dadansoddiad ystod o ddata, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi, trafod gyda'r disgyblion ac ystyried argymhellion ac adroddiadau'r awdurdod lleol.

Mae'r broses hunanarfarnu wedi arwain yn ddiweddar at nifer o welliannau pwysig; er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu strategaethau ymyrraeth i gynorthwyo grwpiau arbennig o ddisgyblion ac wedi sefydlu rhaglen effeithiol i wella medrau darllen disgyblion drwy'r ysgol.

Ceir cyswllt clir rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun hwn yn ddogfen effeithiol sy'n cynnwys camau gweithredu clir, dangosyddion llwyddiant synhwyrol, cyfrifoldebau staff, costau ynghyd ag amserlen effeithiol ar gyfer gwerthuso'r targedau. Mae gan y staff a'r llywodraethwyr rolau addas mewn creu, gweithredu a monitro agweddau penodol o'r cynllun datblygu. Gwnânt hyn yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adolygu targedau cynlluniau y blynyddoedd blaenorol yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol llwyddiannus sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau a rhieni’r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Defnyddir yr arian yn bwrpasol i gefnogi blaenoriaethau’r ysgol; er enghraifft, mewn ymateb i gais gan yr ysgol, mae’r rhieni wedi prynu camerâu digidol yn ddiweddar.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol iawn gydag ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn. Maent yn cynllunio ar y cyd ac yn rhannu syniadau a phrofiadau dysgu. Mae gweithdrefnau effeithiol yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar draws y tair ysgol o fewn y ffederasiwn a hefyd gyda’r ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau bod gan athrawon ddealltwriaeth glir mewn perthynas â lefelu gwaith disgyblion, yn arbennig ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae’r trefniadau pontio llwyddiannus sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r ysgol uwchradd yn sicrhau bod y disgyblion hŷn yn trosglwyddo’n hyderus i’r cam nesaf yn eu haddysg.

Cydweithia’r ysgol yn llwyddiannus gydag asiantaethau'r awdurdod lleol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae partneriaeth dda yn bodoli gyda’r gymuned leol, ac mae’r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn yr ardal, er enghraifft cyngherddau ac eisteddfodau lleol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cymuned a’u cynorthwyo i ddysgu am anghenion pobl eraill.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n dda. Mae wedi ei staffio’n briodol a gwneir defnydd llwyddiannus o arbenigedd y staff i ddarparu ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Mae’r cymorthyddion yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn cyfrannu’n gadarnhaol at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. O ganlyniad i broses rheoli perfformiad, mae arweinwyr yn cynllunio datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn effeithiol mewn perthynas â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion penodol yr unigolion. Mae’r rhwydweithiau buddiol iawn gydag ysgolion y ffederasiwn yn cynnig cyfleoedd da i staff rannu eu gwybodaeth a’u harbenigedd. Er enghraifft, mae staff addysgu sy’n arbenigo mewn pynciau fel mathemateg, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg yn cyfnewid ag athrawon o’r ysgolion eraill.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau o’r adnoddau ariannol sydd ar gael. Oherwydd nad oedd gan yr ysgol ddisgyblion cymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ni dderbyniodd yr ysgol y Grant Amddifadedd Disgyblion.
O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672332 - YSGOL GYMUNEDOL LLANWNNEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 6 | * | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 83.3 | * | 80.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | * | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | * | 20.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | * | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.3 | * | 80.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 16.7 | * | 20.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | * | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 33.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672332 - YSGOL GYMUNEDOL LLANWNNEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 7 | * | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 85.7 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 85.7 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 71.4 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 18<br>95% | 1<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carol Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.